Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 23 Mehefin 2015 am 10:00y.b.**
**Y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

**Yn bresennol:** Mr Alasdair Kenwright, Cadeirydd )
Mrs Ann Williams ) Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio
Mr Gawain Evans )
Mr Malcolm MacDonald )

**Hefyd yn bresennol:**
Carl Langley – Dirprwy Brif Gwnstabl (DBG)
Adrian Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
Helen Morgan-Howard – Pennaeth Staff, SCHTh (HMH)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
John Herniman – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Jonathan Maddock – Rheolwr Clientiaid TIAA (JM)
Liz Frizi – Rheolwr Caffael a Chytundebau (LF)(eitem 4 ar yr agenda yn unig)

Cyn cychwyn busnes, gofynnodd y Cadeirydd am i longyfarchiadau'r Pwyllgor gael eu hanfon ymlaen at Carys Morgans, Pennaeth Staff, ar enedigaeth efeilliaid yn ddiweddar.

**A50 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Simon Prince, Prif Gwnstabl, Vicky Davies, TIAA, ac Anne William, Swyddog Cymorth.

**A51 Datganiadau o ddiddordeb**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**A52 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod yn amodol ar fân ddiwygiad o dan A36 – roedd y llythyr ar y Cynllun Ffioedd Archwilio eisoes wedi'i ddosbarthu, felly nid oedd angen y penderfyniad.

**A53 Caffael yn Heddlu Dyfed-Powys**

Croesawodd y Cadeirydd Liz Frizi, a roddodd gyflwyniad i'r Aelodau ar drefniadau sydd mewn grym yn Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y rheolir Caffael Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith mewn modd cydymffurfiol i gyflwyno gwerth am arian. Darparodd LF drosolwg o gaffael, gan ganolbwyntio ar: gydymffurfio â deddfwriaeth a'r fframwaith llywodraethu corfforaethol; yr agenda lleol; canlyniadau a gyflawnwyd; gwerth am arian ac arbedion.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd LF bod cyfarwyddiadau Ewropeaidd yn ffurfio rhan o Reoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015. Mewn perthynas â chaffael, roedd llawer o waith wedi'i wneud gyda heddluoedd yn genedlaethol ar safoni cerbydau

heddlu a oedd wedi cyflwyno arbedion sylweddol. Roedd gwaith yn digwydd yn genedlaethol ar wasanaethau lifrog a fforensig. Roedd Dyfed-Powys yn ffurfio rhan o'r bwrdd prosiect rhanbarthol cychwynnol a oedd yn gweithio ar y cytundebau cyntaf a oedd yn cyflwyno arbedion o 25% ar y pryd. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers cyflwyno manyleb genedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd LF am y cyflwyniad ac am y sicrwydd a roddwyd.

**A54 Materion yn codi**

O dan A35 cyngor cyfreithiol ar daliadau dewisol, hysbysodd y PSA yr Aelodau bod y mater wedi ymestyn ers cryn amser ac roedd y dewisiadau mwyaf priodol a chost effeithiol sydd ar gyfer y sefydliad yn cael eu hystyried er mwyn dwyn y mater i ben. Cymeradwyodd yr Aelodau'r penderfyniad gan edrych ymlaen at ddatrysiad.

Cadarnhaodd y PSA bod y Comisiynydd wedi cymryd perchnogaeth o Orsaf Heddlu Rhydaman o'r perchnogion masnachol ar 19 Mehefin 2015 gan arwain at ddod â'r cytundeb Menter Ariannu Breifat i ben.

**Materion i'w trafod:**

**A55 TDatganiadau llywodraethu ariannol blynyddol y Prif Swyddog Ariannol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gyfer 2014/15**

Tynnodd y PSA sylw at ddiwygiad o fewn argymhelliad yr adroddiad. Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo, yn hytrach nag ystyried, datganiadau llywodraethu ariannol drafft 2014/15 ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bydd datganiad llywodraethu blynyddol y Comisiynydd yn cael ei gynnwys o fewn y cyfrifon Grŵp.

Dogfen statudol oedd datganiad ariannol blynyddol y Comisiynydd a oedd yn esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd mewn grym er mwyn galluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Roedd y Comisiynydd yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a rhaid iddo ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau. Mae'n sicrhau y cynhelir system gadarn o reoli mewnol drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau mewn grym ar gyfer rheoli risg.

Mabwysiadwyd Cod Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd ar 1 Ebrill 2014 ac mae'n cael ei gynnwys o fewn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Esboniodd y PSA y trefniadau'n gryno ar gyfer llywodraethu o fewn y sefydliad a gyflawnir gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n gyfrifol am gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol ac yn ystyried y ffactorau a dylanwadau mewnol ac allanol a allai effeithio ar y sefydliad. Mae'n ystyried pa un ai a yw'r strwythurau llywodraethu sydd mewn grym yn addas ar gyfer bodloni anghenion newydd a newidiol y sefydliad. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae'r grŵp llywodraethu corfforaethol yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheoli mewnol. Mae'r adolygiad yn edrych ar y gwaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'r farn allanol a ddarparwyd. Roedd hi'n

bwysig nodi bod Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio ar gyfer 2014/15 yn nodi bod prosesau llywodraethu, rheoli ac arolygu effeithiol a digonol mewn grym i reoli cyflawni ei amcanion. Hefyd, ystyrir adolygiadau AHEM i nodi bod strwythur llywodraethu digonol mewn grym. Roedd yr adolygiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 yn dod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu sydd mewn grym yn addas ar gyfer y diben yn unol â chanllawiau heb unrhyw faterion mawr neu wendidau'n cael eu nodi. Mae materion arwyddocaol penodol a materion a nodwyd yn natganiad llywodraethu'r llynedd yn parhau ac fe'u nodwyd o fewn yr adroddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd.

Tynnodd MM sylw at rai gwallau teipio ac awgrymodd ddiwygiadau ac ychwanegiadau i ddarparu eglurhad pellach. Nodwyd y rhain a chytunwyd arnynt.

Tynnodd GE sylw at y Cynllun Parhad Busnes sy'n aros a gofynnodd am ychwanegiad o fewn yr adroddiad i edrych ar ddatrysiad. Cytunodd y Cadeirydd.

Amlinellodd y CC yn fras Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Prif Gwnstabl. Mae'r PG yn gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines ac mae ganddo gyfarwyddyd a rheolaeth dros swyddogion a staff yr Heddlu. Mae'r PG yn dal ei swydd o dan y Goron, ond mae'n cael ei benodi gan y CHTh. Mae'n atebol i'r gyfraith am arfer pwerau'r heddlu, ac i'r CHTh am blismona effeithiol ac effeithlon, rheoli adnoddau a gwariant gan y gwasanaeth heddlu. Mae'r PG yn cyflwyno plismona gweithredol yn ardal Dyfed-Powys yn unol â'r gyfraith ac i safonau priodol. Mae ganddo ddyletswydd i sicrhau y diogelir arian cyhoeddus, ac y cyfrifir amdano'n gywir, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon.

Amlinellodd y CC y Trefniadau Llywodraethu Ariannol a thynnodd sylw at bob un o chwe egwyddor graidd llywodraethu da a gynhwysir o fewn canllawiau CIPFA/SOLACE. Daeth yr adolygiad o effeithiolrwydd i'r casgliad fod y fframwaith llywodraethu'n addas i'r diben yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, rheolwyr o fewn y sefydliad a oedd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a sylwadau gan archwilio allanol ac arolygiaethau ac asiantaethau adolygu eraill. Roedd cynnydd o ran gweithgarwch archwilio AHEM yn canolbwyntio ar feysydd gweithredol risg uchel gan ddarparu sicrwydd pellach i'r pwyllgor a'r PG mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol.

Fel adroddwyd o fewn datganiad llywodraethu blynyddol CHTh, roedd nifer o faterion angen gwaith pellach. Un maes penodol oedd ymgorffori'r Cod Moeseg, lle'r oedd llawer o waith yn digwydd o fewn yr heddlu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar Ddatganiad Llywodraethu Ariannol Drafft y Prif Gwnstabl.

Tynnodd MM sylw at hepgoriad. Roedd y PG yn gorfforaeth undyn a gofynnodd MM am i hyn gael ei ychwanegu o dan y Cwmpas Cyfrifoldeb, fel yr adroddir o fewn datganiad

y CHTh. Fel y soniwyd mewn trafodaethau ar ddatganiad CHTh, gofynnwyd am ychwanegu cyfeiriad i'r Cynllun Parhad Busnes. Cytunwyd i'r ychwanegiadau hyn.

Gan y gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ddau ddatganiad, holodd y Cadeirydd pa un ai a oedd digon o amser ar gyfer ail ddosbarthu a chymeradwyo diwygiadau ac ychwanegiadau er mwyn bodloni terfynau amser.

Cytunodd y PSA i wneud diwygiadau ac ychwanegiadau dilynol ac ail ddosbarthu'n electronig ar gyfer cadarnhad Aelodau.

Yng ngoleuni llywodraethu da, gwnaeth JH sylw mewn perthynas â'r diwygiadau a phwysleisiodd ofyniad ar gyfer llofnodi datganiadau yn barod ar gyfer llofnodi'r datganiad o gyfrifon drafft ddiwedd Mehefin.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Datganiadau Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol ar gyfer 2014/15 ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn amodol ar wneud diwygiadau ac ychwanegiadau a'u dosbarthu'n electronig i Aelodau ar gyfer cadarnhad o gymeradwyaeth.**

## A56 Ystyried y Polisïau Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer 2014/15

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Polisïau Cyfrifyddu drafft ar gyfer 2014/15.

Cyflwynir y Polisïau Cyfrifyddu drafft cyn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2014/15 yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi er mwyn rhoi cyfle i Aelodau adolygu ac ystyried yr elfen hon o'r Datganiad o Gyfrifon yn ystod cam cynharach. Roedd y PSA wedi cynnal adolygiad sylweddol o'r Polisïau Cyfrifyddu dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cyfrif am nifer fach o newidiadau mewn cymhariaeth â Datganiad o Gyfrifon 2013/14 mewn heddluoedd eraill yng Nghymru. Roedd gwaith yn digwydd â'r Polisïau Cyfrifyddu er mwyn cyfrif am gydweithio.

Gwnaeth GE sylw mewn perthynas â lleihau maint y cyfrifon. Gyda chytundeb Swyddfa Archwilio Cymru, holodd GE pa un ai a gellir cyfeirio at y Polisïau Cyfrifyddu o dan ddolen o fewn y cyfrifon.

Cafwyd trafodaeth ar yr angen i ddarparu gwybodaeth benodol o fewn y cyfrifon er mwyn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru ffurfio barn. Awgrymodd JH ddefnyddio'r rhagair i'r cyfrifon er mwyn rhoi crynodeb o'r datganiadau ariannol sy'n haws ei dreulio i ddefnyddwyr y cyfrifon. Cwestiynodd MM werth rhestr termau.

Ar gyfer dibenion cysondeb o fewn y ddogfen, ceisiwyd mân ychwanegiadau o fewn adrannau a chytunwyd arnynt.

Darparodd y PSA eglurder ar y Datganiadau o Gyfrifon gwahanol a chadarnhaodd y cynnwys a ymgorfforir o fewn y Datganiad o Gyfrifon Grŵp.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y Polisïau Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer 2014/15.**

## A57 Ystyried adroddiad blynyddol 2014/15 yr Archwilwyr Mewnol

Cyflwynodd JM yr Adroddiad Blynyddol sy'n nodi canlyniadau adolygiadau a gynhaliwyd ar fframwaith llywodraethu, rheoli risg ac arolygu'r sefydliad. Casglodd farn flynyddol y Pennaeth Archwilio bod gan yr Heddlu a SCHTh brosesau llywodraethu, rheoli ac arolygu effeithiol a digonol mewn grym i reoli cyflawni ei amcanion. Roedd pob adolygiad o fewn y cynllun wedi'u cyflawni, ar wahân i'r adolygiad Rheoli Risg a oedd wedi'i ohirio tan 2014/15 a chrynhowyd asesiadau sicrwydd cyffredinol a wobrwywyd fel rhan o'r adolygiadau hynny. Tynnodd JM sylw Aelodau at ychwanegiad newydd i'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at, ac yn crynhoi, yr argymhellion o ran pedwar maes risg allweddol. Roedd Cynllun Archwilio Blynyddol 2014/15 wedi cymeradwyo 158 diwrnod o waith archwilio mewnol yn y flwyddyn, ac roedd crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd a'r hyn a fwriadwyd o ran Gwaith Archwilio Mewnol a drefnwyd yn 2014/15 yn dangos 146 diwrnod; y gwahaniaeth yw'r adolygiad Rheoli Risg y sonnir amdano uchod a'r adolygiad Rheoli Fflyd, a gymerodd llai o amser na'r hyn a nodwyd yn y Cynllun.

Sylwodd y Cadeirydd ar y tabl ar Asesiadau Sicrwydd gan nodi eu bod nhw'n glir ac yn fuddiol.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol.**

## A58 Ystyried Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA) hyd fis Mehefin 2015

Rhoddodd yr adroddiad cryno ddiweddariad ar y fframwaith Sicrwydd Rheoliadau ac roedd y SICA yn seiliedig ar waith archwilio mewnol a gyflawnwyd gan TIAA.

Rhestrwyd yr archwiliadau a gynhaliwyd ac a gwblhawyd ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Archwilio a chynigwyd y dylid defnyddio 4 o'r 10 diwrnod wrth gefn ar gyfer adolygiad o'r Cyd-uned Arfau Saethu gyda Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru.

Roedd cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014/15 yn dangos bod pob adolygiad wedi'i gwblhau a bod yr holl adroddiadau wedi'u gorffen. Tynnwyd sylw at gynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16 gyda chynlluniau i drefnu pob adolygiad ar gyfer y flwyddyn, er y gallai rhai dyddiadau newid oherwydd gofynion gweithredol neu adrannol.

Tynnwyd sylw at y sefyllfa mewn perthynas â thri argymhelliad blaenoriaeth 1 sy'n weddill, a wnaed mewn Adroddiadau Archwilio blynyddol. Roedd y dyddiad cwblhau gwreiddiol o Fehefin 2014 wedi'i newid i ddiwedd Mehefin 2015, ac ar ôl trafod, nodwyd bod y dyddiad wedi llithro eto i ddiwedd Medri 2015. Roedd y dyddiad systemau TG hefyd wedi newid i 31 Awst 2015 ar gyfer cwblhau. Roedd yr adolygiad o Ddyledwyr wedi newid i 31 Awst 2015 o 31 Gorffennaf 2015 oherwydd elfen hyfforddi'r argymhelliad.

Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch yr amser sydd wedi mynd heibio ers y dyddiadau gweithredu gwreiddiol o ran Systemau TG a Pharhad Busnes.

Pwysleisiodd y DBG y gwaith sydd wedi'i wneud o ran llunio'r Cynllun Parhad Busnes cyn yr ailstrwythuro a gyflwynwyd gan y rhaglen Y Cyhoedd yn Gyntaf. Roedd y strwythurau ar ôl gweithredu'r cynllun Y Cyhoedd yn Gyntaf yn wahanol iawn ac roedd yn faes gwaith uchel ei flaenoriaeth o ran ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.

Mynegodd MM ei bryder a chyfeiriodd at ddwy enghraifft o achosion lle'r oedd cynlluniau parhad busnes wedi profi'n hollbwysig i sefydliadau.

Nododd GE y byddai'n rhoi hyder i'r Pwyllgor pe gellir rhoi sicrwydd bod elfennau gwaelodol y Cynllun mewn grym. Pwysleisiodd nad oedd materion wedi'u datblygu mor gyflym a disgwyliwyd.

Roedd llawer o waith wedi'i gynnal o ran Cynllunio Parhad Busnes a chadarnhaodd y CC bod cynlluniau wedi'u mewnosod yn rhaglen 2015/16.

Gofynnodd MM am grynodeb o ddogfennau sydd mewn grym ar hyn o bryd cyn cwblhau Cynllun Parhad Busnes ffurfiol ar gyfer yr Heddlu cyfan.

Ceisiodd y PSA eglurhad mewn perthynas â gosod systemau TG a Chynllunio Parhad Busnes fel dwy eitem Blaenoriaeth 1 gyda dyddiadau estynedig ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cyfeirio at Gynllunio Parhad Busnes yn unig.

Mewn ymateb i gwestiwn ar yr adolygiad o Ddyledwyr, cadarnhaodd y CA waith sy'n digwydd er mwyn gwella perfformiad.

**Penderfyniad: Darparu crynodeb i'r Aelodau o ddogfennau sydd mewn grym mewn perthynas â Pharhad Busnes a gosod y mater ar agenda cyfarfod mis Medi.**

**Cytunodd y Pwyllgor y bydd 4 o 10 diwrnod wrth gefn yn cael eu defnyddio ar gyfer adolygiad ar y cyd â Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent o'r Cyd-uned Arfau Saethu.**

## A59 Ystyried Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol:

### a) Llywodraethu - Rheoli Perfformiad

Ystyriodd yr adolygiad o Reoli Perfformiad Rheoli drefniadau ar gyfer darparu sicrwydd i'r Panel Heddlu a Throseddu ac uwch reolwyr trwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol a'r systemau a ddefnyddir i olrhain a rheoli cyflawni targedau. Nododd canfyddiadau allweddol yr adolygiad bod trefniadau rheoli perfformiad rhesymol mewn grym gan Heddlu Dyfed-Powys gyda dangosyddion perfformiad ystyrlon ar gyfer y system ffôn a dioddefwyr eto i'w nodi. Derbyniwyd y ddau argymhelliad blaenoriaeth 2 gan reolwyr. Cadarnhaodd y CC a'r CA dderbyniad yr Heddlu o'r ddau argymhelliad blaenoriaeth 2 gyda gwaith yn digwydd ar ganfyddiadau.

**b) Hyfforddiant AD**

Gwerthusodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer nodi anghenion hyfforddi o ran staff heddlu a swyddogion heddlu, caffael a monitro hyfforddiant a gyflwynir ac asesu effeithiolrwydd hyfforddiant a dderbynnir. Rhoddwyd sicrwydd rhesymol i'r adolygiad gyda 6 argymhelliad blaenoriaeth 2 a chanfyddiadau allweddol yn cael eu nodi.

Sylwodd y Cadeirydd ar y gwaith a ddisgwylir gan bersonél a chwestiynodd amserlenni gweithredu amserol.

Holodd GE gwestiynau priodol mewn perthynas â'r argymhellion. Pwysleisiodd y CA bod yr adolygiad wedi bod yn werthfawr o ran trefniadau datblygu a dysgu yn y dyfodol.

**c) Llywodraethu – Prosiectau Trawsnewid**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer llywodraethu'r Prosiect Plismona Digidol/Data Symudol ac asesodd effeithiolrwydd trefniadau Rheoli Prosiect gan gynnwys adrodd a monitro canlyniadau gwirioneddol a chanlyniadau a fwriadwyd.

Rhoddwyd sicrwydd rhesymol i'r adolygiad gyda 3 argymhelliad blaenoriaeth 2. Cytunwyd i bob un ohonynt.

**d) Dilyniant 2014/15**

Roedd yr adolygiad dilynol gan TIAA yn sefydlu camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr mewn perthynas ag argymhellion blaenoriaeth 1, 2 a 3 a gododd o adolygiadau archwilio mewnol a restrir yn yr adroddiad. Crynhowyd y canlyniad cyffredinol gyda 21 argymhelliad wedi'u gweithredu, 7 argymhelliad yn y broses o gael eu cwblhau gyda 12 argymhelliad yn derbyn dyddiad targed diwygiedig, gyda 2 o'r 12 yn argymhellion blaenoriaeth 1. Gweithredwyd 53% o'r argymhellion gydag 17% pellach wrthi'n cael eu gweithredu, a 30% o argymhellion yn derbyn dyddiadau targed diwygiedig. Roedd 2 o'r 16 argymhelliad a dderbyniodd ddyddiadau targed diwygiedig yn argymhellion blaenoriaeth 1.

Darparodd y CC eglurhad mewn ymateb i gwestiwn gan GE ar olrhain asedau, a lle bo'n berthnasol, caniatáu rhif ased unigryw yn unol â gweithdrefnau ac arfer da.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol.**

**A60 Derbyn Cofnodion Grŵp Llywodraethu Corfforaethol 9 Mehefin 2015**

Dosbarthwyd y cofnodion yn y cyfarfod a thynnodd y CC sylw'r grŵp at y busnes ynddo.

Cwestiynodd AW y gweithdrefnau sydd mewn grym ar gyfer cefnogi a diogelu'r rhai sy'n chwythu'r chwiban. Rhoddodd y DBG sicrwydd trwy addysgu a hyfforddi rheolwyr a goruchwylwyr ynghylch chwythu'r chwiban.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi cofnodion Grŵp Llywodraethu Corfforaethol 9 Mehefin 2015.**

**A61 Diweddariad ynghylch gweithgarwch AHEM**

Parhaodd trefn archwilio AHEM yn weithredol gyda sawl arolygiad wedi'u cyflawni hyd yn hyn. Doedd dim un o'r archwiliadau wedi adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Heddlu. Ni nodwyd unrhyw gynlluniau gweithredu ffurfiol.

Crynhodd y CA y prif archwiliadau o fewn yr adroddiad. Ffurfiodd arolygu Trwyddedu Arfau Saethu ran busnes sylweddol ar gyfer yr Heddlu ac er y disgwylir yr adroddiad roedd yr adborth a dderbyniwyd yn gadarnhaol. Roedd yr Heddlu wedi newid prosesau'n sylweddol i fod yn fwy seiliedig ar risg a newidiodd nifer o strwythurau i gyflwyno'r newidiadau hynny.

Archwiliad Peel 2015 – roedd cam 1, yr archwiliad Effeithiolrwydd, Arweinyddiaeth a Chyfreithlondeb yn edrych ar sut oedd yr Heddlu'n cyflawni ei fusnes. Nodwyd bod swyddogion a staff yn teimlo mai'r archwiliad hwn oedd un o'r archwiliadau mwyaf ymwthiol yr oedd yr Heddlu wedi derbyn. Disgwylir yr adroddiad.

Roedd archwiliad Bregusrwydd PEEL yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yw'r heddluoedd o ran diogelu'r rhai sy'n agored i niwed rhag niwed a chefnogi dioddefwyr. Roedd yr archwiliad yn cynnwys amrediad eang o fregusrwydd ond roedd yn canolbwyntio ar dri phrif faes - plant coll ac absennol, cam-drin domestig a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016.

Cadarnhaodd y DBG na ddisgwylir lleihad yn nifer yr archwiliadau ar gyfer y dyfodol agos.

Cwestiynodd y cadeirydd effaith archwiliadau AHEM ar fusnes dydd i ddydd.

Cadarnhaodd y DBG bod effaith ar gyflwyno plismona o ran swyddogion a staff yn cael eu cymryd o'r dyletswyddau gweithredol i gymryd rhan mewn archwiliadau ond pwysleisiodd ei fod yn fater yr oedd y Llywodraeth yn teimlo sydd angen er mwyn ennyn hyder y cyhoedd mewn plismona a phrosesau.

Ailadroddodd MM bryderon y Pwyllgor fel y mynegwyd yn flaenorol a chafwyd trafodaeth ynghylch bregusrwydd heddluoedd Cymru gan fod un mewn pedwar yn cael eu clustnodi ar gyfer archwiliadau, tra bod un mewn wyth yn cael eu clustnodi yn Lloegr.

**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar weithgarwch AHEM.**

**Materion i'w penderfynu**

## A62 Ystyried adroddiad blynyddol 2014/15 y Cyd-bwyllgor Archwilio

Hwn oedd ail adroddiad y Cyd-bwyllgor Archwilio a cheisiodd y Cadeirydd sylwadau ynglŷn â'i gynnwys.

Nododd HMH bryder y Pwyllgor ynghylch nifer yr archwiliadau AHEM a'r galw a osodir ar yr Heddlu mewn meysydd ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn.

Sylwodd MM ar hunan asesiad y Pwyllgor o'i effeithiolrwydd a rhynnodd sylw at feysydd blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Tynnodd GE sylw at weithredu Cynllun Parhad Busnes fel prif flaenoriaeth.

Nododd JH feysydd busnes sy'n derbyn sicrwydd cyfyngedig.

Gofynnodd MM am ychwanegiad gan nodi bod Daphne Evans wedi ymddeol er mwyn ymgymryd â rôl arall o fewn y gwasanaeth heddlu yng Nghymru.

Llongyfarchodd y Cadeirydd pob aelod ar gofnod presenoldeb o 100%.

Ar ôl i'r diwygiadau a'r ychwanegiadau y cytunwyd arnynt gael eu gwneud, byddai'r adroddiad yn cael ei ail fformatio a'i gyhoeddi ar y wefan.

Sylwodd MM ar yr anhawster o ran pennu ardaloedd sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar wefan newydd CHTh. Cytunodd y PSA i drafod y mater hwn â'r Ymgynghorydd Cysylltiadau Cyhoeddus.

**Penderfyniad: Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio yn dilyn mân ddiwygiadau ac ychwanegiadau.**

## A63 Penodi Cadeirydd newydd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio

Eglurodd y Cadeirydd bod Cadeirydd y Cyd-bwyllgor archwilio wedi'i benodi yng nghyfarfod mis Medi mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y Cadeirydd ond yn gymwys ar gyfer gwasanaethu am ddwy flynedd. Roedd y Cadeirydd wedi cwblhau ei ddwy flynedd mewn swydd, a gan hynny, nid oedd yn gymwys i sefyll eto. Rhestrodd y Cadeirydd gyfrifoldebau eraill h.y. y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n cwrdd cyn pob cyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio a'r cyn-gyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio, lle y byddai'n fuddiol gael Cadeirydd penodedig. Gwahaoddodd y Cadeirydd enwebiadau.

Ar ran y Pwyllgor, llongyfarchodd MM Mr Kenwright am ei waith fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf.

Roedd proffil rôl wedi'i ddosbarthu ar gyfer y swydd Cadeirydd er mwyn atgoffa aelodau am ofynion y rôl ond nododd HMH ddiwygiad nad oedd wedi'i egluro'n

flaenorol. Roedd y diwygiad hwn yn cynnwys talu lwfans cyfrifoldeb arbennig bach i'r Cadeirydd.
Cytunodd GE i sefyll fel Cadeirydd pe na bai Aelodau'n mynegi unrhyw bryder ynghylch y ffaith ei fod yn byw tu allan i Gymru. Teimlai aelodau bod hyn yn ffactor cadarnhaol a oedd yn darparu ar gyfer barn annibynnol.

**Penderfyniad: Penodi Gawain Evans yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio o 1 Awst 2015.**

**Dosbarthu'r Proffil Rôl Cadeirydd diwygiedig i Aelodau.**

**A64 Unrhyw fusnes arall**

Cyfeiriodd MM at adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Roedd hon yn ddogfen ymgynghori hollbwysig a gofynnodd MM am gael gweld unrhyw sylwadau yr oedd Dyfed-Powys yn gwneud ar yr adroddiad. Cyfeiriodd JH at feysydd defnyddiol o fewn yr adroddiad a phenderfynodd y PSA ei fod yn werth ei ychwanegu i agenda cyfarfod mis Medi.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Medi 2015**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50y.b.**